# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

## DYDD MERCHER, 17 EBRILL 2024

**PRESENNOL** Cynghorydd A.G. Morgan (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| K.V. Broom | D.M. Cundy | N. Evans | D. Jones |
| M.J.A. Lewis | D. Nicholas | | |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | |
|---|---|---|
| T. Davies | A. Evans | G.H. John |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
Y Cynghorydd D. Price – yr Arweinydd
Y Cynghorydd A. Lenny – yr Aelod Cabinet dros Adnoddau

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddu a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
H. Pugh, Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol
J. Jones, Pennaeth Adfywio, Polisi a Digidol
R. Morris, Swyddog Cymorth Aelodau

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
R. Hemingway, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol
N. Evans, Rheolwr Cymorth Busnes
D. Hockenhull, Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau
D. Hall-Jones, Swyddog Cymorth Aelodau
S. Rees, Cyfieithydd ar y Pryd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.39 yb**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb. Estynnodd y Cadeirydd ddymuniadau gorau'r Pwyllgor i Mrs Kelly Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a dymuno gwellhad buan iddi yn dilyn ei salwch diweddar.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

| | | |
|---|---|---|
| A. Evans* | 4. Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2023/2024 | Rhagfarnol - Mae aelod o'r teulu yn gweithio yn yr adran Gwasanaethau Democrataidd |

**Datganiad wedi'i wneud ar ddechrau'r eitem agenda.*

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch unrhyw chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

## 4. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24

[SYLWER: Ar ôl datgan buddiant yn gynharach yn yr eitem hon, arhosodd y Cynghorydd A. Evans yn y cyfarfod tra bo'r Pwyllgor yn trafod yr eitem ac yn pleidleisio yn ei chylch.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Gorfforaethol yr Awdurdod ac adroddiadau adrannol y Prif Weithredwr a'r Gwasanaethau Corfforaethol, a oedd yn rhoi diweddariad am y sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2023 mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023/2024.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys atodiad a oedd yn nodi adroddiad Monitro Arbedion fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2023.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad monitro yn rhagweld gorwariant ar gyfer y flwyddyn ar lefel adrannol o £10,183k ac yn rhagweld gorwariant o £4,782k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a'r ymholiadau a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- Codwyd ymholiad ynghylch y cynnydd a wnaed mewn perthynas â lleihau nifer y swyddfeydd a symud staff, a'r effaith ganlyniadol ar arbedion effeithlonrwydd yr Awdurdod. Rhoddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol wybod i'r Pwyllgor am drefniadau gweithio hybrid yr Awdurdod a alluogodd y Cyngor i ddadfuddsoddi adeiladau yn unol â'i strategaeth rheoli asedau a disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Mynegwyd pryderon i Swyddogion mewn perthynas ag effaith gweithio gartref ar lesiant staff a phwysigrwydd rhyngweithio staff mewn amgylchedd swyddfa i aelodau newydd o staff. Yn hyn o beth, rhoddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol sicrwydd bod y polisi gweithio hybrid yn cael ei fonitro'n agos, a bod llesiant staff yn ystyriaeth allweddol.

- Codwyd pryderon gan y Pwyllgor mewn perthynas ag effaith andwyol rhewi trefniadau recriwtio ar y gweithlu a allai arwain at fwy o salwch staff a goblygiadau cost tymor hwy i'r Awdurdod. Roedd swyddogion yn cydnabod heriau parhaus o ran rhewi trefniadau recriwtio; fodd bynnag, ystyriwyd bod dull pragmatig yn cael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod i archwilio gwahanol ffyrdd o weithio o fewn hinsawdd ariannol heriol. Rhoddwyd sicrwydd y byddai recriwtio i swyddi gwag sy'n hanfodol i fusnes yn parhau, ac yn hyn o beth, roedd angen i reolwyr roi adborth am unrhyw bwysau ychwanegol yr oedd yr adrannau'n eu hwynebu er mwyn i'r Tîm Rheoli Corfforaethol eu hystyried. Amlygwyd hefyd, yn unol â

dyletswydd gofal yr Awdurdod, fod polisïau cadarn ar waith o ran rheoli absenoldeb, cynllunio'r gweithlu a llesiant staff.

- Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd ynghylch gwaredu asedau, rhoddodd y Pennaeth Adfywio, Polisi a Digidol wybod i'r Pwyllgor am Strategaeth Rheoli Asedau'r Awdurdod a phwysleisiodd yr angen i gydbwyso derbyniadau cyfalaf gyda chynhyrchu incwm.

- Wrth ystyried y rhaglen gyfalaf, codwyd ymholiad ynghylch gallu'r Awdurdod i gyflawni ei brosiectau a'i gynlluniau o ystyried y llithriad a nodir yn yr adroddiad. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf yn ei gwneud yn ofynnol i gyllid fod ar waith ar gyfer gwariant cyfalaf; roedd natur hyn yn golygu bod angen i'r holl Awdurdodau Lleol fabwysiadu dull synhwyrol a arweiniodd yn anochel at elfen o lithriad rhwng blynyddoedd ariannol. Rhoddwyd sicrwydd bod mesurau chwyddiant wedi'u cyfrif o fewn y gyllideb lle bo'n briodol.

- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â rhaglen y Gronfa Ffyniant Gyffredin, rhoddodd y Pennaeth Adfywio, Polisi a Digidol wybod i'r Pwyllgor am sefyllfa bresennol yr awdurdod a chadarnhaodd fod y cyllid wedi'i neilltuo i brosiectau unigol yr oedd yn ofynnol iddynt gyflawni'r cynlluniau erbyn 31 Rhagfyr 2023. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod trefniadau monitro cadarn ar waith, a disgwylid y byddai'r prosiectau'n cael eu cyflawni o fewn yr amserlenni.

- Holwyd a oedd lle i'r Pwyllgor dderbyn adroddiadau ariannol cyfredol, diweddar wrth symud ymlaen i alluogi monitro effeithiol a nodi atebion. Dywedodd yr Arweinydd, wrth gydnabod natur hanesyddol yr adroddiadau, y gallai'r Pwyllgor adolygu'r data sydd ar gael o ran tueddiadau penodol mewn gorwariant neu danwariant i nodi meysydd i'r Pwyllgor eu hystyried ymhellach. Ar ben hynny, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fod y materion allweddol o ran pwysau sy'n dod i'r amlwg yn parhau'n gyson ac felly ystyriwyd bod yr adroddiadau'n rhoi cyfle i'r Pwyllgor ymgymryd â'i rôl allweddol wrth ddwyn adrannau'r Cabinet a'r Cyngor i gyfrif. Esboniodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol amserlenni adroddiadau ar y gyllideb i'r Pwyllgor a oedd yn cyd-fynd â'r broses ddemocrataidd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 5. ADRODDIAD PERFFORMIAD CWARTER 3 - 2023/24 (01/04/23-31/12/23) YN BRIODOL I'R PWYLLGOR CRAFFU HWN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad at ddibenion monitro, ar Chwarter 3 - 2023/24 o'r Camau Gweithredu a'r Mesurau oedd yn gysylltiedig â Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod a'r Amcanion Llesiant.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a'r ymholiadau a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- Cyfeiriwyd at y risg a amlygwyd o ran cynaliadwyedd ariannol ysgolion a holwyd a oedd cyllid grant wedi'i neilltuo ers hynny i liniaru rhywfaint o bwysau yn hyn o beth. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol, er bod rhywfaint o gyllid ychwanegol wedi'i dderbyn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, nad oedd yr arian i'r un raddfa â blynyddoedd blaenorol ac felly, oherwydd ei natur anrhagweladwy, na allai'r Awdurdod ddibynnu ar gyllid grant ar gyfer cyllidebau ysgolion. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol y byddai'r ffigwr ar gyfer y cyllid grant ychwanegol a dderbyniwyd ar gyfer ysgolion ar gyfer 2023/24 yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor.

- Cafwyd trafodaeth ar Alluogwr Busnes Craidd Rheoli Pobl lle amlygwyd y gyfradd ymateb isel i'r Arolwg Blynyddol Ymgysylltu â Gweithwyr. Cafodd y Pwyllgor drosolwg o'r amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu a hyrwyddo a fyddai'n cael eu gweithredu cyn yr arolwg blynyddol nesaf i gyrraedd mwy o grwpiau staff, a byddai ymateb amserol i'r adborth yn cael ei roi i ymatebwyr. Rhoddwyd sicrwydd bod yr Arolwg Blynyddol Ymgysylltu â Gweithwyr yn ddienw ac felly nid oedd modd adnabod aelodau staff unigol.

- Mewn ymateb i gais, cytunodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor y gyfradd ymateb ar gyfer yr arolygon y cyfeirir atynt yn naratif yr adroddiad, yn ogystal â chopi o'r cwestiynau yn yr Arolwg Blynyddol Ymgysylltu â Gweithwyr. Yn dilyn sylw, cytunodd y Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau i archwilio'r dichonoldeb wrth uno'r arolygon rheoliadol ac is-adrannol fel modd o gynyddu cyfraddau ymateb i arolygon.

- Cyfeiriwyd at berfformiad yr Awdurdod mewn perthynas â chynhyrchu derbyniadau cyfalaf i gefnogi'r rhaglen gyfalaf. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor, er ei fod yn is na'r targed ar gyfer y chwarter, bod trafodion gwerthu wedi cynyddu ers hynny, a disgwylid y byddai'r targed cyffredinol yn cael ei wireddu.

- Eglurodd y Pennaeth Adfywio, Polisi a Digidol, mewn ymateb i ymholiad ar danberfformiad ym maes gwaith atgyweirio i adeiladau nad ydynt yn dai, fod adnodd pwrpasol bellach yn gyfrifol am fynd ar ôl contractwyr ar gyfer unrhyw waith hwyr ac felly disgwylid i'r perfformiad wella yn y maes hwn. Cytunwyd y byddai ymholiadau'n cael eu gwneud i ganfod a oedd unrhyw gosbau wedi'u rhoi i'r contractwyr am beidio â bodloni eu rhwymedigaethau o fewn amserlenni penodedig a byddai'r wybodaeth yn cael ei dosbarthu i'r Pwyllgor maes o law.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**5.1** **dderbyn yr adroddiad.**

**5.2** **bod y ffigwr ar gyfer y cyllid grant ychwanegol a dderbyniwyd ar gyfer ysgolion ar gyfer 2023/24 yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor.**

**5.3 bod y gyfradd ymateb i'r arolygon y cyfeirir atynt yn yr adroddiad, yn ogystal â chopi o'r cwestiynau yn yr arolwg blynyddol ymgysylltu â staff yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor.**

**5.4 bod swyddogion yn archwilio'r dichonoldeb wrth gyfuno arolygon rheoliadol ac is-adrannol mewn ymdrech i gynyddu cyfraddau ymateb i'r arolygon.**

**5.5 bod ymholiadau'n cael eu gwneud i ganfod a oedd y contractwyr wedi bod yn destun unrhyw gosbau am beidio â chyflawni eu rhwymedigaethau mewn perthynas â gwaith atgyweirio ymatebol i adeiladau nad ydynt yn dai a bod y wybodaeth yn gael ei dosbarthu i'r Pwyllgor.**

## 6. COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS (PSB) SIR GAR - IONAWR 2024

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024. Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol bod pwyllgor craffu llywodraeth leol dynodedig yn cael ei benodi i graffu ar waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn Sir Gaerfyrddin, penodwyd Pwyllgor Craffu – Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau y Cyngor fel y Pwyllgor Craffu perthnasol.

Roedd y canlynol ymhlith y materion a'r ymholiadau a godwyd ynghylch yr adroddiad:

- Cyfeiriodd yr Arweinydd at ei bresenoldeb mewn digwyddiad dysgu Cymru gyfan diweddar a oedd yn adolygu'r trefniadau llywodraethu a'r cyfleoedd ymgysylltu ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd a’r Is-gadeirydd yn cyfarfod â'r Arweinydd i archwilio'r maes hwn ymhellach gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiadau mwy ystyrlon o weithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a gwell mecanweithiau ymgynghori ac ymgysylltu i gryfhau perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol. Yna gellir cynnal trafodaethau pellach gyda chynrychiolwyr perthnasol o grwpiau eraill a arweinir gan aelodau o fewn y Cyngor.

- Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd yr Arweinydd y byddai diweddariad pellach ar y grŵp gorchwyl a gorffen sy'n deillio o'r amcan Llesiant Trechu Tlodi yn cael ei roi i'r Pwyllgor maes o law. Dywedwyd y gallai Panel Trechu Tlodi yr Awdurdod gyfrannu'n gadarnhaol at y grŵp gorchwyl a gorffen a byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal yn hyn o beth.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1 dderbyn cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024.**

6.2 bod y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd yn cyfarfod â'r Arweinydd i archwilio ymhellach gyfleoedd i gyflwyno adroddiadau mwy ystyrlon ar weithgareddau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda gwell dulliau ymgynghori ac ymgysylltu i gryfhau perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol. Yna gellir cynnal trafodaethau pellach gyda chynrychiolwyr perthnasol o grwpiau eraill a arweinir gan aelodau o fewn y Cyngor.

6.3 bod diweddariad pellach ar y grŵp gorchwyl a gorffen sy’n deillio o’r Amcan Llesiant Trechu Tlodi yn cael ei roi i'r Pwyllgor maes o law.

## 7. DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU Y PWYLLGOR CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â cheisiadau neu atgyfeiriadau a oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau Corfforaethol yn ystod blwyddyn y cyngor 2023/24.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad a fanylai ar y cynnydd o ran y camau gweithredu, y ceisiadau, neu'r atgyfeiriadau oedd wedi deillio o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Craffu.**

## 8. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r agenda yn cael ei hadolygu, oherwydd y nifer cyfyngedig o eitemau busnes a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 29 Mai 2024, a byddai penderfyniad yn cael ei wneud maes o law ynghylch a fyddai'r cyfarfod yn mynd yn ei flaen.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.**

## 9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 1AF MAWRTH 2024

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 1 Mawrth 2024 gan eu bod yn gywir.**

________________________ __________________

**CHAIR** **DATE**